# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 10fed Mehefin 2019

Presennol: Sian Parri, Gareth Jones, Henry Huws, John Davies
Ymddiheuriadau: Seimon Glyn, Medwyn Jones, Humphrey Williams.

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:
   a. Archwyliad mewnol – Derbynnwyd adroddiad yn ol gan yr Archwylwyr Mewnol, roedd 4 argymhellion y dylid ymrwymo i roi sylw iddynt, bydd y Clerc yn gweithredu ar hyn yn syth.
   b. Llwybyr ger Glan Dwr Dinas- doedd y Clerc ddim wedi llwyddo i gysylltu a'r adran Llwybrau – bydd yn gwneud hyn o fewn y mis nesaf.
   c. Elusen John Edwards/Llain Fatw – Eglurodd y Cadeirydd nad oedd dyddiad cyfarfod wedi ei benodi eto.
   ch. Pleidleisio 'Cynrychiolydd Un Llais Cymru ar y Grwp Cyfeiriol Budd ddeiliaid Betsi Cadwaladr' – edlurodd y Cadeirydd iddi ymchwilio a darllen am yr ygeiswyr ac o ystyried bobpeth ei bod yn argymell Hayden Jones – pleidlieswyd iddo.

Yn ystod ail hanner y cyfarfod, gadawodd y Cadeirydd y gadair, eglurodd y Clerc fod angen ethol Cadeirydd. Gan nad oedd yr isgadeirydd Robin Williams yn bresennol, a hefyd ond wedi mynychu dau gyfarfod yn ystod y flwyddyn, penderfynnwyd ail ethol Sian Pari fel Cadeirydd am flwyddyn arall, a cynigwyd Alan Hughes fel Is Gadeirydd.

4. **Gohebiaethau**:
    a. Cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor Un Llais Cymru – anfon ymddiheuriad na all y cynrychiolydd fynychu'r cyfarfod.
    b. Model Brotocol Datrysiad Lleol – Penderbynnwyd madwysiadu'r brotocol, y Clerc i wybyddu Un Llais Cymru ein bod wedi ei fabwysiadu.
    c. Cais Cynllunio C19/0390/46/CR Pensarn Dinas – Cefnogi
    ch. Cais Cynllunio C19/0457/46/LL Llys y Gwynt Garnfadryn Cefnogi
    d. Cais Cynllunio C19/0517/46/LL Congl Cae Llangwnnadl Dim Sylwadau

5. **Unrhyw fater arall**:
    a. Polisiau: Mabwysiadwyd
    Polisi Rheolau Sefydlog, Polisi Rheoliadau Cyllido, Polisi Asesiadau Risg y Cyngor, Polisi Iaith a Cod Ymddygiad.
    b. Torri Llwybrau – pasiwyd i Andrew Pozzi dorri llwybrau eleni.
    c. Arwyddo Buddianau- Cafodd y Cyngoryrdd nad oedd yn bresennol mis diwethaf gyfle i arwyddo.
    ch. Dywedodd Gareth Jones fod pryder am ddiogwelwch y lon sydd rhwng Edern a chyrion Tudweiliog, mae sawl dawmain drwg wedi digwydd ar y darn yma o'r ffordd, gan ei bod yn culhau yn arw am gyfnod. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Ffyrdd i holi os oes bwriad altro'r ffordd.
    d. Gan fod presenoldeb Cyngorwyr yn isel dros y misoedd diwethaf, penderfynwyd fod y Clerc yn cysyltu a Un Llais Cymru i drafod beth ellir ei wneud i godi'r presenoldeb, ac yna anfon llythyr i bob Cyngorydd i'w gywbyddu o'r camau fydd yn Cyngor yn ei gymeryd.

**Cynhelir Cyfarfod Nesaf ar 8ed Gorffennaf 2019 yng Nghanolfan Tudweiliog am 7.15 o'r gloch.**